# CYNGOR CYMUNED BETWS

## 2006 04 Ebrill Cofnodion

Cynhaliwyd eyfarfod misol y Cyngar yn Festri Capel Newydd, Y Betws ar Ddydd Mereher yr 12fed 0 Ebrill 2006 am 7.00 p.m.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwr Lareen Lewis (Cadeirydd), Henadur D Arnallt James, y Cynghorwyr Anne Sizmur, Delyth Richards, Menna Roberts, E Audrey Jones, Peter Cowell a June Gunter.

YMDDIHEURIADAU: Y Cyngharwyr Keith Rees, Carwyn James, Graham Vaughan, Annette Price a'r Cynghorwr Sir John D Evans.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
Dim.

1. I DDARLLEN AC YSTYRIED COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALlWYD AR Y 8 fed 0 F AWRTH 2006.
Cadarnhaodd y Cynghorwr Anne Sizmur ae eiliodd y Cynghorwr Arnallt James fod eafnodion eyfarfod yr 8fed 0 Fawrth 2006 yn gywir ae fe'u Ilofnodwyd gan y Cadeirydd.

2. MATERION YN CODI.
2.1 Cynllun Ailgylchu Bees Glas.
Darllenodd y Clerc ymateb derbyniadd gan Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn ag ailgylehu plastig.
NODWYD: y pwynt uehod.

2.2 Gwaith Glo Rhif. 1 Rhydaman.
Darllenodd y Clerc ymateb derbyniadd gan Awdurdod Y Glo ynglyn a'r fynedfa'r drift ar Fynydd Y Betws. NODWYD: y pwynt uehod.

2.3 Gwaith Glo Betws.
Darllenodd y Clerc ymateb derbyniadd gan Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn ag mentr diagelweh ar y safle uehod. Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn perthyn j'r tir ae mae'n anffodus nid maen nhw'n gallu eymryd unrhyw weithred, maen nhw'n awgrymu bod Cyngor Cymuned Y Betws yn eysylltu ar union gyda'r Gweithredwr. NODWYD: y pwynt uehod.

2.4 Llwybr Troed 3/14 a 3/16.
Roedd Y Cynghorwr Peter Cawell wedi diweddaru'r Cynghorwyr ynglyn ar drefn eau dras dra ar y Ilwybrau uehad. Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur ei bod hi'n pryderu ynglyn a diagelweh aelodau a'r eyhaedd a gafynnadd pa mar hir yw eau dras dra? Cytunodd y Cynghorwyr bod y Clere yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin i afyn pa mor hir yw eau dras dra.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin.

2.5 Taliadau Parcio yn Rhydaman.
Darllenodd y Clerc ymateb derbyniodd gan Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn a thaliadau parcio yn Rhydaman. NODWYD: y pwynt uchod.

2.6 Goleuo'r Eglwys.

Darllenodd y Clerc ymateb derbyniodd gan Eglwys Y Plwyf Llandybie. Penderfynodd y Cynghorwyr i ysgrifennu at W Kingsbury i holi am y gost 0 archebu offer add as.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at W Kingsbury.
2.7 Papur Trafodaeth.
Roedd y Cynghorwr Peter Cowell wedi diweddaru'r Cynghorwyr ynglyn ar e-bost derbyniwyd wrth Gyngor Sir Caerfyrddin. Esboniodd y Cynghorwr Peter Cowell bod y Ilwybr ceffyl yn mynd i gael ei amgen gan yr arian o'r Adran 106, ond ni fydd hyn yn cymryd lie oherwydd bod yr arian wedi cael ei gyllido am brosiect arall gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r arian wedi cael ei dosbarthu i achosion mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried yn flaenoriaeth. Penderfynodd y Cynghorwyr bod copi o'r papur trafodaeth yn cael ei danfon i Mr Carlsen 0 Gyngor Sir Caerfyrddin.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn danfon copi o'r papur trafodaeth at Gyngor Sir Caerfyrddin.

Hefyd Awgrymodd y Cynghorwr Peter Cowell bod y Cyngor Cymuned yn gofyn i Gyngor Sir Caerfyrddin os gallan nhw uwchraddio'r Ilwybr troed sydd yn rhedeg rhwng Heol Y Cyrnol ac Ysgol Y Betws i arwyneb caled trwy'r Cynllun IIwybr diogel i Ysgolion. Cytunodd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin i ofyn am ffurflen gais am y Cynllun Ilwybr diogel i Ysgolion.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Gwasanaeth Tan Ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.
Darllenodd y Clerc gohebiaeth derbyniodd gan Wasanaeth Tan Ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Maen nhw'n gofyn am gymorth ariannol ynglyn a'u Cynllun Brwydrwyr Tan Ifanc. Cytunodd y Cynghorwyr fod hyn yn cael ei atgyweirio at y Pwyllgor Ariannol am ei hystyriaeth. Mae'r Cyfarfod Ariannol nesaf ym mis Gorffennaf 2006.
PENDERFYNWYD: fydd hyn yn cael ei hystyried yn y Cyfarfod Ariannol nesaf.

3.2 Cyngor Sir Caerfyrddin - Ymgyrch Ilanhau Sir Gaerfyrddin.
Gofynnodd y Clerc j'r Cynghorwyr os oeddent am gymryd rhan yn yr ymgyrch i lanhau Sir Gaerfyrddin am y flwyddyn hon. Dangosodd sawl Cynghorwr diddordeb a benderfynwyd glanhau'r IIwybr troed sydd yn rhedeg rhwng Heol Y Cyrnol ac Ysgol Y Betws ar yr 25ain 0 fis Mai 2006 am 6.00 yn yr hwyr. PENDERFYNWYD: fod y Clerc yn dweud wrth Gyngor Sir Caerfyrddin am yr uchod.

3.3 Gohebiaeth: Cydnabuwyd a nodwyd y canlynol:
1. Cyngor Sir Caerfyrddin.
•Rhybudd Gorfodaeth, Gweithdy Peirianneg Aman, Heol Pentwyn, Betws.
•Hysbysiad 0 gyfeiriad newydd.
•L1awlyfr i Gynghorwyr Tref a Chymuned - rhoddwyd i Gynghorwr Loreen Lewis.
•L1wybr Troed 3/8 Dargyfeirio L1wybr Cyhoeddus 2006.
•Prosiect Newidydd - 2 x murlenni.
2.L1ywodraeth Cynulliad Cymru - Canllawiau ar Gynllunio i Leihau Risg ar gyfer yr Awdurdodau Tan ac Achub.
3.Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.
4.Anturiaeth Dyffryn Aman - cyrsiau hyfforddiant am ddim.
5.Cyngor Cymuned L1anedi - Newidiad 0 gyfeiriad swyddogol.
6.GrWP Aman 0 Gynghorau L1eol- Agenda a Chofnodion.
7.Twristiaeth Gogledd Cymru.

4. MATERION CYNLLUNIO.
4.1 Cvtunwyd i'r ceisiadau isod gan Gyngor Cymuned y Betws:¬E/12765 - Estyniad, Nythfa, Ffynnon Coopers, Garnswllt, Rhydaman (1).
E/12279 - Ystafell Wydr ac ystafell arddangos, Profab 2000, Betws (2).

4.2 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi rhoi caniatad i'r canlynol:-
E/11248 - Dau Dy a tair ystafell wely, tir ger Heol Waungron, Betws (22/2006).

5. CYFRIFON.
1.Aelodaeth Un L1ais I Gymru £161.00
2.Aelodaeth HOWL TA £8.00
3.Un L1ais I Gymru (copi fodel 0 drefniadau sefydlog) £14.99
CYFANSWM £183.99

Arlwyodd Y Cynghorwr Peter Cowell taflen mantolen derbyniwyd gan Glwb Criced y Betws. Awgrymodd Y Cynghorwr Peter Cowell fod Cyngor Cymuned Y Betws yn rhoi sialens i Glwb Criced y Betws. Lie fydd Cyngor Cymuned Y Betws yn cyllido cyfatebol yr arian mae Clwb Criced y Betws yn gallu codi, tua therfyn hid at £300. Trafodwyd hyn gan y Cynghorwyr ac fe benderfynwyd bod hyn yn cael eu hystyried can y Pwyllgor Cyllid yn ei chyfarfod nesaf sydd ym mis Gorffennaf 2006.
NODWYD: y pwynt uchod.

6. ADRODDlAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd PC Kevin Jones y cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys. Adroddodd fod yna 6 trosedd wedi'u cofnodi yn ardal y Betws ym mis Mawrth. Maent fel a chanlyn:-
twyll, lIadrad 0 gerbyd modur, lIadrad 0 ysgolion, ymwneud a ehyffuriau, niwed troseddol i gerbyd modur a lIadrad arall. Ar hyn 0 bryd nid ydynt wedi'u datrys.

Adroddodd PC Jones ar y troseddau 0 31/03/05 i 31/0306. Bu 125 troseddau wedi'u eofnodi yn ardal y Betws, mae 83 wedi'u ddatrys.

Bu 3360 bob I ifaine yn bresennol yn y Disgo Glas a gynhaliwyd ym mis Mawrth. Mae'r Disgo Glas nesaf ar y 20fed 0 fis Ebrill.

Adroddodd PC Jones am bwyntiau a godwyd yn eyfarfod mis diwethaf:-
•Damweiniau ar Fynydd Y Betws - mae hyn yn dod 0 dan reolaeth Heddlu De Cymru ae yn anffodus nid yw Heddlu Dyfed Powys yn gallu gwneud dim.
•Mae'na gynlluniau yn lie pe bai 'ref arall yn eymryd lie ar Fynydd Y Betws.
Adroddodd y Cynghorwr Loreen Lewis fod plant yn gyrru eerbydau baeh trwy Bare Coetir. Dywedodd y PC Jones fod hyn yn broblem 0 fewn ardal Rhydaman, mae'r Heddlu wedi gosod gweithrediad i edryeh ar y mater hwn.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR.
Roedd y Cynghorwr Sir John D Evans fethi fod yn bresennol yn y eyfarfod, felly adroddodd y Clere ar y materion eanlynol yn ei absenoldeb:-
1.Gwaith Glo Rhif. 1 Rhydaman - Fydd yr Awdurdod Glo yn gwneud gwaith adferol ar fyr 0 dro.
NODWYD: y pwynt uehod.
2.Safle Betws - Fel yr adroddodd yn y eyfarfod diwethaf mae yna blant yn ehwarae ar y safle, ond nid yw'r Cyngor Sir yn gallu eymryd gweithred oherwydd mae'r tir yn breifat. Mae'r Cynghorwr Sir John D Evans wedi eofnodi'r mater i'r gweithredwr y bore yma.
NODWYD: y pwynt uehod.
Dywedodd y Cynghorwr Loreen Lewis wrth y Cynghorwyr fod y Guardian wedi eamargraff erthygl a ddywedwyd nid oedd y Cynghorwr Sir yn bresennol yn y noson trosedd ddiweddar, ond roedd wedi mynyehu. Mae Cynghorwr Loreen Lewis wedi eysylltu gyda'r Guardian sydd wedi ymddiheuro am y gwall teipio ae mae'r Guardian wedi eadarnhau bydd ymddiheuriad yn eael eu hargraffi yn y papur. Trafododd y Cynghorwyr y mater ae fe benderfynwyd nid yw'n nhw'n meddwl ei fod yn angenrheidiol i ddanfon ymddiheuriad i'r Cynghorwr Sir ar ran Cyngor Cymuned y Betws.
NODWYD: y pwynt uehod.

8. ADRODDIADAU.
8.1 Grwp Aman 0 Gynghorau Lleol.
Adraddodd y Cynghorwr Anne Sizmur ei bod hi wedi bod yn bresennol yn cyfarfod GrWP Aman 0 Gynghorau Lleol ar yr 30ain 0 fis Mawrth 2006. Mae'r cynlluniau yn ymdeithiadau ar Reilffordd Dyffryn Aman ac mae'r cyfarfod nesaf yn cymryd lie ym mis MaL
NODWYD: y pwynt uchod.

8.2 Cyfarfod Un Llais I Gymru.
Adraddodd y Cynghorwr Anne Sizmur ei bod hi wedi bod yn bresennol yn cyfarfod diweddar Un Llais I Gymru, adraddodd fod Un Llais i Gymru wedi colli rhai o'u haelodau oherwydd perfformiad gwael a dyletswydd gan NALC. NODWYD: y pwynt uchod.

8.3 Betws yn ei Blodau.
Roedd y Cynghorwr Anne Sizmur wedi diweddaru ynglyn ar gystadleuaeth Betws yn ei Blodau. Mae hi wedi penodi dyfarnwr a fydd y barnu yn cymryd lie tua diwedd mis Mehefin. Mae'r Pennaeth 0 Ysgol Y Betws wedi cadarnhau bod yr ysgol a diddordeb i gymryd rhan yn y gystadleuaeth.
NODWYD: y pwynt uchod.

8.4 Cyfarfod Bwrdd Lleol lechyd.
Roedd y Cynghorwr Loreen Lewis wedi diweddaru ynglyn ar gyfarfod diweddar Fwrdd Lleol lechyd. NODWYD: y pwynt uchod.

9. TREFNIADAU SEFYDLOG.
Trafodwyd y trefniadau sefydlog ac fe gytunodd y Cynghorwyr nid oedd ganddyn nhw welliannau i'w wneud. Hefyd fe benderfynwyd bod y Clerc yn dileu'r adrannau sydd yn addas yn unig i Gynghorau Cymunedol Saesneg a hefyd i rai enw Cyngor Cymuned y Betws yn yr adrannau dynodedig. Ar ol i hyn cael ei gwblhau bydd y Clerc yn rhoi copiau i'r Cynghorwyr yn y cyfarfod blynyddol sydd ar yr 10fed 0 fis MaL Gofynnodd y Cynghorwr Delyth Richards os yw'r trefniadau sefydlog ar gael trwy gyfwng y Gymraeg. Bod y Clerc yn gwneud ymholiad gydag Un Llais I Gymru.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn gwneud ymholiad i weld os yw'r trefniadau sefydlog ar gael trwy gyfwng y Gymraeg.

10. UNRHYW FATER ARALL.
10.1 Teithiau'r Gwanwyn.
Gofynnodd y Cynghorwr Delyth Richards pryd fydd y teithiau'r gwanwyn yn cychwyn am y flwyddyn hon. Penderfynodd y Cynghorwyr fydd y daith gyntaf ar y 4ydd 0 fis Mai yn cwrdd wrth Sgwar Cwmfelin, Betws am 6 o'r gloch yr hwyr. NODWYD: y pwynt uchod.

10.2 L1wybr Troed 68/11.
Roedd y Cynghorwr Arnallt James yn pryderu am Iwybr troed 68/11 (yr ail gat wrth Heol Maescware), adroddodd fod yna trochfa ar ddiwedd y IIwybr troed wrth erbyn y rhan sydd wedi cael ei gorchuddio gyda cherrig man. Penderfynodd y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin i holi os gall fwy o gerrig man yn cael eu dodi ar y IIwybr troed i wneud yn wastad. PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin.